**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 7 Medi 2023 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | V A Holland | P M Matthews |
| M Bailey | C A Holley | P N May |
| M Baker | D H Hopkins | F D O'Brien |
| S Bennett | L James | D Phillips |
| P N Bentu | Y V Jardine | C L Philpott |
| P M Black | A J Jeffery | J E Pritchard |
| A Davis | D H Jenkins | S Pritchard |
| P Downing | J W Jones | A Pugh |
| C R Doyle | L R Jones | S J Rice |
| M Durke | M H Jones | K M Roberts |
| C R Evans | M Jones | B J Rowlands |
| C M J Evans | S M Jones | R V Smith |
| V M Evans | S Joy | A H Stevens |
| E W Fitzgerald | S E Keeton | R C Stewart |
| R Fogarty | E J King | L G Thomas |
| R Francis-Davies | E T Kirchner | W G Thomas |
| N Furlong | H Lawson | M S Tribe |
| L S Gibbard | A S Lewis | G D Walker |
| F M Gordon | M B Lewis | L V Walton |
| K M Griffiths | R D Lewis | T M White |
| H J Gwilliam | P Lloyd | R A Williams |
| J A Hale | M W Locke | |
| T J Hennegan | N L Matthews | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Lucy Moore | Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A M Day, P R Hood-Williams, W G Lewis, J D McGettrick a/ac A J O'Connor

## 31. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr J P Curtice, A Davies, P Downing, R A Fogarty, L James, D H Jenkins, S M Jones, S E Keeton, N L Matthews, F D O'Brien, K M Roberts, R V Smith, A H Stevens, W G Thomas ac R A Williams gysylltiad personol â Chofnod 41 "Adolygiad o Gymunedau - Polisi Maint Cynghorau Cymuned/Tref."

2) Datganodd y Cynghorydd S M Jones gysylltiad personol â Chofnod 36 "Cwestiynau Cyhoeddus." yn ymwneud â "Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Cynllun Adolygu Deisebau".

Swyddogion:

3) Datganodd Huw Evans gysylltiad personol â Chofnod 41 "Adolygiad o Gymunedau - Polisi Maint Cynghorau Cymuned/Tref."

## 32. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 6.

## 33. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 34. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Gwobrau Cymunedol y Faner Werdd

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Cyfeillion Llyn Golchi a Gardd Fwyd Gymunedol Mayhill wedi derbyn Gwobr Gymunedol y Faner Werdd unwaith eto. Y bumed flwyddyn yn olynol iddynt ei hennill.

Talodd deyrnged hefyd i'r gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â'r parciau/gerddi cymunedol gwyrdd llai a mannau gwyrdd yn Abertawe. Mae eu gwaith yn amhrisiadwy i Abertawe a'i dinasyddion.

**b) Diwygiadau/cywiriadau i wŷs y cyngor**

**i) Eitem 13 "Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Cynllun Adolygu Deisebau"**

Dileu paragraff 8.3 o'r Cynllun Deisebau. Rhoi'r canlynol yn ei le:

*"8.3 Os yw'r cyngor yn gwrthod eich deiseb neu os ydych yn teimlo nad yw'r cyngor wedi delio â'ch deiseb yn iawn, cysylltwch â Thîm y Gwasanaethau Democrataidd (DS)*
*democratiaeth@abertawe.gov.uk*
*Rhowch esboniad byr o'ch pryder a'r penderfyniad yr ydych yn ei geisio o fewn 10 niwrnod gwaith clir i'r penderfyniad. Bydd Tîm y GD yn anfon eich pryder ymlaen at yr Aelod Llywyddol a fydd yn ei ystyried mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151. Bydd eu penderfyniad yn derfynol.*

**ii) Eitem 14 "Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 7"**

Dileu paragraff 2 o ymateb Arweinydd y Cyngor. Rhoi'r canlynol yn ei le:

*"Mae cyfleoedd ariannu'n cael eu harchwilio ar y cyd â Chyfeillion Pont y Slip mewn ymgais i adfer y darn pwysig hwn o dreftadaeth Abertawe."*

**iii) Eitem "14 Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 9"**

Dileu'r frawddeg sy'n nodi:

*"Mae'r amserlen atodedig yn dangos cyfraddau a benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)."*

## 35. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**a) RAAC (Concrit awyredig awtoclafiedig cydnerth)**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd unrhyw RAAC wedi'i ganfod yn unrhyw un o adeiladau cyhoeddus Cyngor Abertawe. Cadarnhawyd hyn yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru.

Bob blwyddyn mae Tîm Gwasanaethau Adeiladu'r cyngor yn cynnal arolygon cyflwr o'n sefydliadau addysg, ac mae hyn yn cynnwys ymweliad safle gan ein syrfewyr prosiectau a pheirianwyr mecanyddol a thrydanol. Mae'r arolwg yn cynnwys archwiliad i gyflwr adeiladwaith yr adeilad lle mae'r waliau, y toeon, y ffenestri a'r lloriau'n cael eu harchwilio ynghyd â'r gosodiadau mecanyddol a thrydanol.

Mae'r syrfewyr yn chwilio am arwyddion o ddirywio, dŵr yn dod i mewn, holltau yn sgîl pwysau, symudiad, lleithder/llwydni, ac unrhyw arwyddion o bydredd gwlyb neu sych. Nid yw'r cyngor erioed wedi dod ar draws unrhyw

achos o osod Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth (RAAC) yn unrhyw un o'n hadeiladau addysg.

Ar gyfer adeiladau cyhoeddus eraill, cynhaliwyd arolygon cyflwr dros y blynyddoedd, a dyma sy'n llywio'r Gyllideb Cynnal a Chadw Gyfalaf wrth i ni geisio bod yn rhagweithiol a nodi diffygion adeileddol cyn iddynt ddod yn broblem.

**b) Llwgu yn ystod y Gwyliau**

Talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged i dimau'r cyngor a Chynghorwyr a oedd wedi cefnogi plant a theuluoedd drwy gydol yr haf trwy gynnal digwyddiadau am ddim a darparu bwyd am ddim i lawer mewn angen. Darparwyd dros 66,000 o brydau bwyd am ddim i blant yn Abertawe dros yr haf. Cafwyd 230,000 o deithiau ar fysus yn sgîl y cynllun bysus am ddim

Dyma ddwy yn unig o'r mentrau a gynhelir gan Gyngor Abertawe i gynorthwyo gyda llwgu yn ystod y gwyliau yn ystod yr argyfwng Costau Byw. Mae'r cyngor yn gobeithio cynnal y ddwy fenter eto yn ystod cyfnod y Nadolig os yw cyllid yn caniatáu.

**c) Cwmni Adeiladu Grŵp Buckingham**

Dywedodd Arweinydd y cyngor fod Buckingham Group wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ar 4 Medi 2023. Mae'r cyngor wedi meddiannu'r safle a'i ddiogelu. Bydd y cyngor mewn cysylltiad â'r gweinyddwr yr wythnos hon. Mae trafodaethau â phrif gontractwyr posib yn parhau gyda'r nod o sicrhau bod contractwr newydd yn ei le cyn gynted â phosib fel y gall y gwaith ailddechrau.

**ch) Diwygiadau i Bortffolio'r Cabinet**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi gwneud sawl mân ddiwygiad i Bortffolios y Cabinet fel a ganlyn:

i) Portffolio Trawsnewid Gwasanaethau y Cabinet (y Cynghorydd Andrea Lewis)
Ychwanegwyd "Arweinydd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid".

ii) Portffolio Lles y Cabinet (Y Cynghorydd Alyson Pugh)
Newidiwyd "Cynrychiolydd Arweinwyr Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel " i ddarllen "Arweinydd Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel."
Dilëwyd "Ffoaduriaid a Lloches."

**d) Cyllid Ysgol Pensaernïaeth Cymru**

Dywedodd Ddirprwy Arweinydd ar y Cyd y Cyngor mai Cyngor Abertawe yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru a lwyddodd i gael cyllid ar gyfer prosiect ymchwil i gyd-ddylunio tai ynni effeithlon, carbon isel, wedi'u hôl-osod. Mae pedwar tŷ yn Townhill wedi cael eu dewis i gymryd rhan yn y prosiect.

### dd) Ymweliad â Chlwb Cinio Mosg Sgeti

Dywedodd Dirprwy Arweinydd ar y Cyd y cyngor ei bod hi a'r Cynghorydd Alyson Pugh wedi ymweld â Chlwb Cinio Mosg Sgeti yn ddiweddar.

### e) Rali Congolaidd a Liberaidd yn Sgwâr y Castell

Dywedodd Dirprwy Arweinydd ar y Cyd y cyngor ei bod wedi siarad yn ddiweddar yn y Rali Congoliaidd a Liberaidd a gynhaliwyd yn Sgwâr y Castell. Dywedodd ei bod yn wych gweld cynifer o Gynghorwyr yn cefnogi'r rali.

### f) Diwrnod y Llynges Fasnachol - 3 Medi 2023

Dywedodd Dirprwy Arweinydd ar y Cyd y cyngor ei bod hi, ynghyd â'r Arglwydd Faer a'r Aelod Hyrwyddo Cyn-filwyr, wedi mynd i Ddiwrnod y Llynges Fasnachol ar 3 Medi 2023.

## 36. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

1) Gofynnodd Jules Wagstaff gwestiwn mewn perthynas â Chofnod 42 "Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Cynllun Adolygu Deisebau".

   Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad.

2) Gofynnodd Ben Houghton gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 43 "Cwestiynau Cynghorwyr" - Cwestiwn 6.

   Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth.

3) Gofynnodd John Childs gwestiwn mewn perthynas â Chofnod 42 "Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Cynllun Adolygu Deisebau".

   Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 37. Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Abertawe 2023-2026.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Les adroddiad a oedd yn amlinellu Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Abertawe (VAWDASV) 2023-2026. Mae'r Strategaeth yn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol fel y nodir yn Neddf VAWDASV (Cymru) 2015 a'r blaenoriaethau i'w datblygu, i ysgogi newid.
Mae'n ddogfen bartneriaeth strategol ar gyfer cyflawni blaenoriaethau ar gyfer dod â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i ben yn Abertawe.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Abertawe (VAWDASV) 2023-2026.

## 38. Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2022-2023.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd 2022-2023. Roedd y rhan 'er gwybodaeth' yn disgrifio gwaith y Pwyllgor dros y cyfnod.

## 39. Aelodaeth ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gofyn am roi ystyriaeth i leihau aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o 15 i 12 aelod (8 Cynghorydd a 4 Aelod Lleyg Cyfetholedig Statudol).

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r gostyngiad yn aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o 15 i 12 Aelod (8 Cynghorydd a 4 Aelod Lleyg Cyfetholedig Statudol).

2) Y bydd y Grŵp Llafur a Grŵp Uplands yn nodi enw un Cynghorydd yr un y ceir gwared ohonynt o'r Pwyllgor. Mai'r Cynghorwyr hynny y tynnir eu henwau oddi ar y rhestr aelodaeth yw A J Jeffery a K M Roberts.

## 40. Estyn cyfnod swydd ar gyfer Aelod(au) Annibynnol (Cyfetholedig) y Pwyllgor Safonau.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gofyn am ailbenodi Michela Jones a Mike Lewis am gyfnod pellach o 4 blynedd fel Aelodau Lleyg Cyfetholedig Statudol o'r Pwyllgor Safonau.

**Penderfynwyd:**

1) Ailbenodi Michaela Jones yn Aelod Annibynnol (Cyfetholedig) o'r Pwyllgor Safonau am un cyfnod olynol arall yn y swydd a ddaw i ben ar 30 Medi 2027.

2) Ailbenodi Mike Lewis yn Aelod Annibynnol (Cyfetholedig) o'r Pwyllgor Safonau am un cyfnod olynol arall yn y swydd a ddaw i ben ar 30 Medi 2027.

## 41. Adolygiad o Gymunedau - Polisi Maint Cynghorau Tref a Chymuned.

Cyflwynodd y Swyddog Canlyniadau adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o Bolisi Maint Cynghorau Cymuned/Tref i gynorthwyo gyda'r adolygiad o'r broses Cymunedau sy'n cael ei chynnal gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Polisi Maint Cynghorau Cymuned/Tref.

## 42. Diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor - Adolygiad o'r Cynllun Deisebau.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar y cyd a oedd yn hysbysu'r cyngor o ddiwygiadau i symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar gynghorau i wneud a chyhoeddi

Cynllun Deisebau. Mabwysiadwyd y Cynllun Deisebau gan y cyngor ar 24 Mai 2022. Dywedodd fod adolygiad o'r Cynllun Deisebau wedi'i gynnal a bod yr adroddiad yn ceisio diwygio'r Cynllun.

Gofynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i'r Cynllun Deisebau gael ei fabwysiadu ymhellach drwy ddileu paragraff 8.3 y Cynllun Deisebau a rhoi'r canlynol yn ei le:

> *"8.3 Os yw'r cyngor yn gwrthod eich deiseb neu os ydych yn teimlo nad yw'r cyngor wedi ymdrin â'ch deiseb yn iawn, cysylltwch â Thîm y Gwasanaethau Democrataidd (GD) democratiaeth@abertawe.gov.uk*
>
> *Darparwch esboniad byr o'ch pryder a'r penderfyniad yr ydych yn ei geisio o fewn 10 niwrnod gwaith clir i'r penderfyniad. Bydd Tîm y GD yn anfon eich pryder ymlaen at yr Aelod Llywyddol a fydd yn ei ystyried mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151. Bydd eu penderfyniad hwy yn derfynol."*

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu'r Cynllun Deisebau fel y'i hamlinellir yn Atodiad A yr adroddiad yn amodol ar:
   i) Ychwanegu'r diwygiad i Baragraff 8.3 yr adroddiad fel y'i nodir uchod.
   ii) Gwneud diwygiad pellach gan ychwanegu disgresiwn i Gadeirydd y Cynllun Deisebau hepgor y gofynion i gyrraedd targedau'r trothwy os effeithir ar nifer llai.

2) Y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y cyngor yn y dyfodol yn nodi maint a chylch gorchwyl y Pwyllgor Deisebau.

## 43. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

**Cwestiynau Atodol' Rhan A'**

Cyflwynwyd pedwar (4) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

**Cwestiwn 3**
Gofynnodd y Cynghorydd F D O'Brien a allai'r Tîm Glanhau ddadlwytho gwastraff yn Safle Amwynder Dinesig Clun gan arbed teithiau gwastraff i Safle Byrnu Llansamlet.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Gymuned y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

2) **Rhan B 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd chwe (6) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.54 pm

**Cadeirydd**